Archwiliad post-mortem

Eich dewisiadau ynglŷn ag organau a meinwe

Pan fydd rhywun yn marw gall fod yn gyfnod anodd a dryslyd i aelodau'r teulu. Mewn rhai amgylchiadau y mae'n bosibl y bydd angen archwiliad post-mortem neu y bydd gofyn am un. Dyma archwiliad o'r corff ar ôl marwolaeth ac yn ystod yr archwiliad hwn, mae'n bosibl y bydd angen cymryd organau a samplau meinwe i gael eu harchwilio. Ar ôl yr archwiliad post-mortem bydd angen gwneud penderfyniadau ynglŷn â beth ddylai ddigwydd i'r organau a samplau meinwe a gymerwyd.

Mae'r wybodaeth hon yn cael ei darparu i gefnogi'r rhai sy'n galaru ac y mae archwiliad post-mortem yn effeithio arnynt. Gall hefyd fod yn ddefnyddiol i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda rhai sy'n galaru, neu sy'n ceisio caniatâd am archwiliadau post-mortem.

Os oes angen archwiliad post-mortem neu os gofynnir am un dylech chi a gweithiwr proffesiynol o'r ysbyty neu o wasanaeth y crwner drafod hynny. Dylech drafod beth i'w ddisgwyl; beth fydd yn digwydd a beth yw'ch hawliau chi. Dylai'r drafodaeth hefyd roi gwybodaeth ichi er mwyn eich helpu i wneud penderfyniadau am beth sy'n digwydd i'r organau a'r samplau meinwe y mae angen eu cymryd i'w harchwilio.

Yn ystod cyfnod anodd mae'n bosibl y byddwch am fynd â'r wybodaeth i ffwrdd gyda chi a'i darllen pan fyddwch chi'n barod ac i gyfeirio yn ôl ati yn ystod neu ar ôl eich trafodaethau.

Mae'r wybodaeth ar ffurf cwestiynau ac atebion ac mae'n bosibl defnyddio'r cyfan neu ran ohoni, yn ôl yr angen. Mae'n berthnasol i Gymru a Lloegr. Nid yw'n berthnasol i Ogledd Iwerddon neu i'r Alban Gweler yr adran ***Gwybodaeth bellach a chefnogaeth*** *am ragor o fanylion.*

Os oes angen archwiliad post-mortem neu os gofynnir am un, beth ddylech chi ei ddisgwyl?
Beth yw archwiliad post-mortem?
Beth sy'n digwydd yn ystod archwiliad post-mortem?
Beth yw organau a meinwe?
Pam bod angen cadw organau a meinwe?
Beth sy'n digwydd pan fydd yr archwiliad post-mortem wedi'i orffen?
Pwy sy'n cael rhoi caniatâd?
Beth yw rôl yr Awdurdod Meinweoedd Dynol?
Sut rwy'n gwneud cwyn?
Rhagor o wybodaeth a chefnogaeth

Os oes angen archwiliad post-mortem neu os gofynnir am un, beth ddylech chi ei ddisgwyl?

- Mewn rhai achosion bydd gofyn ichi wneud penderfyniadau. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid trafod angen caniatâd, neu i benderfynu beth sy'n digwydd i organau a samplau meinwe y mae'n rhaid eu cymryd i'w harchwilio. Caiff eich dymuniadau eu parchu.
- Cewch gyfle i drafod gyda gweithiwr proffesiynol sydd wedi cael hyfforddiant mewn ceisio caniatâd. Dylai hyn gynnwys esboniad llawn o'r hyn y caiff yr organau a'r samplau meinwe eu defnyddio i'w wneud, ac unrhyw fuddion i'r teulu o gadw meinwe. Cewch y cyfle hwn fel y bydd gennych yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i ddod i benderfyniad.
- Caiff unrhyw anghenion penodol sydd gennych, boed yn rhai diwylliannol, crefyddol neu ymarferol, eu hystyried mor bell ag sy'n bosibl.
- Os na roddir caniatâd ar gyfer storio organau neu samplau meinwe byddan nhw'n cael eu gwaredu yn brydlon ac mewn ffordd sy'n dangos parch.

Beth yw archwiliad post-mortem?

Mae archwiliad post-mortem yn archwiliad o gorff ar ôl marwolaeth a gellir hefyd ei galw'n awtopsi. Caiff archwiliadau post-mortem eu cynnal am ddau brif reswm:

1. Ar gais Crwner, oherwydd nad yw achos y farwolaeth yn hysbys, neu pan fydd rhywun yn marw'n annisgwyl neu'n sydyn.
2. Ar gais ysbyty, i ddarparu gwybodaeth am salwch neu achos marwolaeth, neu i ysgogi ymchwil meddygol.

Gall yr archwiliadau meddygol hyn o'r corff fod yn ddefnyddiol iawn wrth benderfynu sut, pam a ble y bu rhywun farw, neu wrth ddarparu gwybodaeth am effaith y driniaeth a roddwyd, neu'r digwyddiadau'n arwain at farwolaeth. Gallan nhw hefyd fod yn ddefnyddiol i ddeall yn well sut mae clefyd wedi ymledu; neu a oedd y person a fu farw'n dioddef o glefyd a etifeddwyd yn enedigol. Gall darganfod mwy am afiechydon helpu meddygon i drin cleifion yn y dyfodol.

Cynhelir archwiliadau post-mortem gan Batholegwyr, sef meddygon sydd wedi cael eu hyfforddi ac sy'n dilyn safonau a osodir gan Goleg Brenhinol Patholegwyr a'r Awdurdod Meinweoedd Dynol (HTA).

Cynhelir **archwiliad post-mortem Crwner** o dan awdurdod Crwner i ddarganfod sut y bu i rywun farw neu a oes angen cynnal cwest. Ni ofynnir ichi roi caniatâd am archwiliad post-mortem Crwner. Mae hynny achos bod y gyfraith yn mynnu bod Crwner yn ymchwilio i farwolaethau sy'n dreisgar, annaturiol neu'n sydyn heb unrhyw achos hysbys, neu i farwolaethau a ddigwyddodd mewn carchar.

Mewn rhai amgylchiadau gall Crwner agor cwest i farwolaeth rhywun ar ôl archwiliad post-mortem. Os bydd y Patholegydd yn tystio bod unrhyw organau a blociau o feinwe a sleidiau'n berthnasol i achos marwolaeth, gall y Crwner fynnu eu bod yn cael eu cadw nes bod swyddogaeth y Crwner wedi gorffen. Yn yr un modd os oes posibilrwydd bod cysylltiad rhwng y farwolaeth â throsedd, mae'n bosibl y bydd ar yr heddlu angen meinwe fel tystiolaeth, yn wahanol i ofynion y Crwner.

Yn y ddau achos hynny, mae'n bosibl y byddai rhaid cadw'r samplau, blociau a sleidiau neu organau am sawl mis, ac mewn rhai achosion, am flynyddoedd. O ganlyniad gall hyn gael effaith ar yr hyn rydych am i ddigwydd iddyn nhw.

Os bydd angen cwest, bydd swyddfa'r Crwner yn trafod hyn a'r goblygiadau gyda chi.

Weithiau bydd ysbyty'n gofyn am **archwiliad post-mortem gan ysbyty** er mwyn darparu gwybodaeth am salwch neu achos marwolaeth, neu i ysgogi ymchwil meddygol. Mae'n rhaid cael caniatâd er mwyn cynnal archwiliad post-mortem gan ysbyty. Weithiau bydd y person wedi rhoi caniatâd cyn iddo farw. Os nad dyma'r sefyllfa gall person oedd yn agos atyn nhw roi caniatâd. O dan yr amgylchiadau hyn, fel arfer, rhoddir y Dystysgrif Feddygol o Farwolaeth cyn yr archwiliad post-mortem, ond gall y meddygon a ofalodd am y person cyn iddo farw ofyn am yr archwiliad er mwyn cael rhagor o wybodaeth.

Gall archwiliadau post-mortem ysbytai fod yn gyfyngedig i rai rhannau o'r corff, er enghraifft y pen, y frest neu'r abdomen, a bydd hyn yn cael ei drafod gyda chi pan ofynnir am eich caniatâd. Dim ond yr organau neu feinweoedd hynny rydych wedi cytuno arnyn nhw a gymerir allan ac a archwilir.

Mae'r HTA yn argymell y dylid rhoi 24 awr ichi gael ystyried eich penderfyniad ynghylch archwiliad post-mortem, ac y dylid rhoi manylion rhywun y gallwch gysylltu ag ef os byddwch yn newid eich meddwl.

Beth sy'n digwydd yn ystod archwiliad post-mortem?

Cynhelir yr archwiliad post-mortem cyn gynted ag y bo modd ac fel arfer o fewn dau i dri diwrnod gwaith ar ôl y farwolaeth. Efallai y bydd yn bosibl ei drefnu o fewn 24 awr os bydd angen. Cynhelir yr archwiliad mewn ystafell archwiliad post-mortem, sy'n debyg i ystafell lawdriniaeth, bydd yr ystafell wedi cael ei thrwyddedu ac yn cael ei harolygu gan yr HTA.

Yn ystod archwiliad post-mortem arferol caiff y corff ei agor a chymerir yr organau allan i'w harchwilio. Gan amlaf, gellir gwneud diagnosis drwy edrych ar yr organau, a chaiff eu rhoi yn ôl yn y corff wedyn.

Beth yw organau a meinwe?

Ffurfir organau a meinwe o gelloedd. Mae **Meinwe**'n gasgliad o gelloedd gyda rôl benodol. Mae meinwe'n cynnwys gwaed, pibellau gwaed a chyhyrau. Yn aml, caiff samplau bach neu fiopsïau a gymerir o organau eu trin fel meinwe. Mae **Organau**'n cynnwys mwy nag un math o feinwe ac mae ganddynt rôl benodol yn y corff. Mae ganddynt eu strwythur a chyflenwad gwaed eu hunain. Mae gan y corff lawr o organau gan gynnwys yr ymennydd, y galon, yr ysgyfaint, yr arennau a'r afu/iau.

Pam bod angen cadw organau a meinwe?

Mewn tua 20% o archwiliadau post-mortem o oedolion ac yn y rhan fwyaf o archwiliadau post-mortem o blant, nid yw achos y farwolaeth yn amlwg yn syth. Dim ond drwy gadw sampl bach o feinwe'r organau perthnasol i'w harchwilio'n fwy manwl y gellir gwneud diagnosis. Mae'n bosibl y bydd angen i'r Patholegydd gadw organ cyfan ar gyfer asesiad llawn er mwyn gwneud diagnosis cywir o achos y farwolaeth. Er enghraifft, mae'n bosibl byddai rhaid cadw'r ymennydd os oedd anafiad i'r pen neu'r posibilrwydd o glefyd cymhleth fel afiechyd Alzheimer neu sglerosis gwasgaredig, neu byddai angen cadw'r galon er mwyn cadarnhau anhwylderau fel afiechydon cynhenid y galon. Pan fydd hyn yn digwydd bydd yr organ neu'r meinwe fel arfer yn cael ei anfon at uned arbenigol.

Yn aml bydd yr asesiadau llawn hyn yn cymryd wythnosau neu hyd yn oed ychydig o fisoedd i'w gorffen, yn dibynnu ar faint o waith archwilio sydd ei angen. Pan fyddan nhw wedi'u gorffen, bydd y Patholegydd yn paratoi adroddiad i'r Crwner neu'r staff meddygol oedd yn gyfrifol am ofal y person cyn iddo farw.

Samplau o feinwe

Fel arfer caiff samplau bach o feinwe y mae angen eu harchwilio ymhellach eu gosod mewn blociau a wnaed o gwyr paraffin. Caiff y blociau o gwyr eu torri'n haenau tenau iawn, sydd tua deg gwaith yn fwy tenau na blewyn dynol. Rhoddir y tafelli hyn ar sleidiau gwydr a'u lliwio â llifyn arbennig er mwyn caniatáu i'r celloedd gael eu hastudio o dan ficrosgop.

Organau

Os oes angen organau cyfan, rhan o organ, neu feinwe i'w harchwilio'n fanylach, fel arfer byddan nhw'n cael eu trin â chemegyn sy'n eu cadw rhag dirywio. Gellir wedyn brosesu'r samplau o'r organ neu'r meinwe yn flociau a sleidiau fel y disgrifiwyd uchod.

Beth sy'n digwydd pan fydd yr archwiliad post-mortem wedi'i orffen?

Pan fydd yr archwiliad post-mortem wedi'i orffen, dywedir wrthoch chi a yw

samplau meinwe ac organau'n cael eu cadw.

Os caiff samplau neu organau eu cadw dylech ddisgwyl gael dewis beth fydd yn digwydd iddyn nhw pan na fydd eu hangen bellach ar y Crwner neu'r ysbyty. Bydd angen eich caniatâd er mwyn cadw unrhyw samplau meinwe neu organau i'w defnyddio yn y dyfodol ar gyfer ymchwil neu addysg a hyfforddiant staff meddygol. Enghraifft o ffurflen ganiatâd.

Blociau a sleidiau

Gyda'ch caniatâd, gall y blociau a sleidiau gael eu storio fel rhan o gofnod yr archwiliad post-mortem, weithiau caiff hwn ei alw'n gofnod patholeg neu feddygol, rhag ofn y byddan nhw o ddefnydd i'ch teulu yn y dyfodol. Os bydd yr archwiliad post-mortem yn digwydd mewn Mortiwari Cyhoeddus Awdurdod Cyhoeddus, yn hytrach nac mewn Mortiwari'n eiddo i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, cymerir bod eich caniatâd yn golygu eich bod yn cytuno i'r blociau a sleidiau gael eu trosglwyddo a'u storio o fewn y sector gofal iechyd.

Mae'n bosibl y bydd y samplau'n ddefnyddiol am un neu ragor o'r rhesymau canlynol: dysgu, ymchwil, archwiliad clinigol neu sicrwydd ansawdd (nid yw'r rhestr hon yn drwyadl). Gall y samplau hyn fod yn adnawdd gwerthfawr iawn sy'n helpu i ateb cwestiynau meddygol pwysig a gwella gofal cleifion i bobl eraill. Fodd bynnag, er mwyn eu cadw a'u defnyddio ar gyfer y pwrpasau hyn, mae'n rhaid ichi roi eich caniatâd.

Fel arall, os na roddir caniatâd ar gyfer storio organau neu samplau meinwe, cânt eu gwaredu'n brydlon ac mewn dull parchus. I grynhoi, eich dewisiadau yw:

- Gall y sefydliad sy'n storio'r blociau a sleidiau eu gwaredu.
- Os cynhaliwyd yr angladd yn barod, yna mae'n bosibl dychwelyd y blociau a sleidiau ichi, fel arfer drwy ddefnyddio'ch trefnydd angladdau. Mae'n syniad da trafod hyn gyda'ch trefnydd angladdau pan fyddwch yn trefnu'r angladd gan ei bod yn bosibl y bydd yn codi ffi am hyn. Mae hefyd yn bosibl y bydd problemau iechyd a diogelwch a fydd yn golygu na ellir gwneud hyn.
- Mae'n bosibl y caiff y blociau a sleidiau eu dychwelyd gyda'r corff cyn yr angladd. Mae'n bwysig deall y gallai dewis yr opsiwn hwn oedi'r angladd yn sylweddol. Nid yw rhai amlosgfeydd yn caniatáu amlosgi blociau a sleidiau gyda'r corff.

Organau cyfan a samplau meinwe

Nid yw'n bosibl storio organau a samplau meinwe fel rhan o'r cofnod meddygol yn yr un ffordd ag y caiff blociau a sleidiau eu storio. Gellir eu dychwelyd i'r corff, neu eu claddu neu eu hamlosgi ar wahân. Fel arall, gellir eu cadw i'w defnyddio yn y dyfodol ar gyfer addysgu, ymchwil a gymeradwywyd yn foesegol, at bwrpasau archwilio neu bwrpasau clinigol eraill, ond dim ond gyda'ch caniatâd. Gall organau a meinwe fod yn adnawdd gwerthfawr iawn sy'n helpu i wella gofal cleifion i bobl eraill. Er enghraifft, mae cryn dipyn o ymchwil yn cael ei wneud ar organau sy'n cael eu

cadw, yn enwedig ar ymenyddiau, a gaiff eu storio fel arfer mewn casgliadau a elwir yn fanciau ymenyddiau.

Pwy sy'n cael rhoi caniatâd?

Wrth ystyried beth i'w wneud, y farn bwysicaf yw barn y person sydd wedi marw. Os yw'n hysbys bod y person sydd wedi marw wedi rhoi caniatâd neu ei fod yn bendant am beidio â rhoi caniatâd am gadw organau neu samplau meinwe, yna mae'n rhaid parchu'r dymuniadau hynny.

Os nad yw eu dymuniadau'n hysbys, yna mae'n rhaid i berson a enwyd ganddyn nhw tra eu bod yn fyw, neu rywun mewn perthynas â nhw neu'n perthyn yn agos, roi caniatâd. Mae'r Ddeddf Meinweoedd Dynol yn diffinio rhestr o berthnasau 'cymwys', a gaiff eu rhestru mewn trefn. Mae hyn yn golygu bod rhaid gofyn i'r person ar frig y rhestr ac nad yw rhywun yn is ar y rhestr yn gallu gwrthdroi'r penderfyniad hwnnw. Y gŵr neu'r wraig neu bartner sydd ar frig y rhestr, ac mae ffrind tymor hir ar waelod y rhestr. Os oes mwy nag un person ar yr un lefel, er enghraifft gall fod mwy nag un brawd neu chwaer, dim ond caniatâd un ohonynt sydd ei angen.

Fel y diffinnir yn Rheolau'r Crwner, caiff unrhyw 'berson sydd â diddordeb priodol' roi penderfyniad i'r Crwner am sut mae'n rhaid trin y samplau pan fydd yr ymchwiliad wedi dod i ben. Er bod y berthynas rhwng y person sydd wedi marw a'r person sydd â diddordeb priodol yn debyg i 'berthnasoedd cymwys', nid ydyn nhw'n eu graddio yn yr un modd. Os bydd person â diddordeb priodol yn gwneud penderfyniad i gadw samplau o feinwe neu organau, mae'n bosibl y bydd angen i Batholegydd neu weithiwr proffesiynol arall ym maes gofal iechyd gysylltu â'r teulu i sicrhau bod gwneud hynny'n bodloni gofynion y Ddeddf Meinweoedd Dynol ar gyfer storio ac/neu ddefnyddio'r deunydd at ddibenion ymchwil meddygol neu at ddibenion eraill.

Beth yw rôl yr Awdurdod Meinweoedd Dynol (HTA)?

Gyda diddordebau'r cyhoedd a'r rhai rydym yn eu rheoleiddio wrth ganol ein gwaith, ein nod yw cadw hyder drwy sicrhau y caiff meinwe dynol ei ddefnyddio'n ddiogel ac yn foesegol, a chyda chydsyniad priodol. Yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, mae pob mortiwari ysbyty ac awdurdod lleol lle mae archwiliadau post-mortem yn digwydd yn cael eu trwyddedu a'u harchwilio gan yr HTA ac mae'n rhaid iddyn nhw ddangos eu bod yn bodloni ein safonau. Mae cysyniad dilys wrth wraidd y Ddeddf Meinwe Dynol - y gyfraith a sefydlodd yr HTA.

Os na fodlonir ein safonau, rydym yn cymryd camau gweithredu sy'n amrywio o ddarparu cyngor ac arweiniad, cyfyngu ar weithgarwch mewn mortiwari, neu mewn achosion eithafol, gofyn i sefydliad beidio â gweithio nes y bydd yn bodloni ein safonau. Nid yw'r HTA yn rheoleiddio Crwneriaid ac nid yw'n gyfrifol am ymarfer broffesiynol Patholegwyr.

Mae rhagor o wybodaeth am ein gwaith, gan gynnwys cod ymarfer ar

archwiliadau Post-mortem, ar gael yn: www.hta.gov.uk. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni, anfonwch e-bost at enquiries@hta.gov.uk neu ffoniwch 020 7269 1900.

Sut rwy'n gwneud cwyn?

Cwynion neu honiadau am eich profiad mewn sefydliad sy'n cael ei drwyddedu gan yr Awdurdod Meinwe Dynol (HTA)

Mae rhestr o sefydliadau sy'n cael eu trwyddedu gan yr HTA ar gael yn www.hta.gov.uk/licensingandinspections/listoflicensedestablishments.cfm

Os oes gennych gŵyn neu bryder ynglŷn â sefydliad sy'n cael ei drwyddedu gennym dylech chi godi'r mater gyda nhw'n uniongyrchol, fel y byddan nhw'n cael cyfle i ddelio â'r mater eu hunain. Os nad ydych yn fodlon ar yr ymateb gallwch gysylltu â'r sianeli trafod cwynion annibynnol fel Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd yn www.ombudsman.org.uk neu drwy ffonio 0345 015 4033. Os yw'n fortiwari cyhoeddus cysylltwch â'ch awdurdod lleol.

Bydd yr HTA yn asesu unrhyw honiadau (gan gynnwys chwythu'r chwiban) a wneir inni yn unol â'r risg o beidio ag ateb gofynion Deddf Meinweoedd Dynol 2004 (y Ddeddf) neu ein safonau trwyddedu. Os oes gennych honiad ynglŷn â sefydliad trwyddedig anfonwch e-bost at enquiries@hta.gov.uk neu ffoniwch 020 7269 1900.

Cwynion am Batholegydd sy'n cynnal yr archwiliad post-mortem

Mae'n bosibl delio â'r rhan fwyaf o gwynion am Batholegwyr drwy gysylltu â chyflogwyr y meddyg, a fydd â'u trefn delio â chwynion eu hunain. Mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol, sy'n gyfrifol am sicrhau bod gan feddygon yn y DU y wybodaeth a sgiliau cywir i ymarfer meddygaeth yn ddiogel, yn delio â'r cwynion mwyaf difrifol am ymarfer meddyg. Gall y Cyngor Meddygol Cyffredinol gymryd camau i atal neu gyfyngu ar ymarfer meddyg. Gallwch gyflwyno cwyno ar lein yn www.gmc-uk.org/patient_online_complaints. I gael rhagor o wybodaeth, neu os ydych am siarad â chynghorydd, ffoniwch 0161 923 6602.

Cwynion am ymddygiad personol Crwner

Dylid gwneud cwyn am ymddygiad personol Crwner, fel ymddygiad neu sylwadau amhriodol, wrth y Swyddfa Cwynion Barnwrol (OJC). Nid oes dim cost am hyn a gallwch ei wneud ar-lein ar wefan y Swyddfa Cwynion Barnwrol yn: www.judicialcomplaints.judiciary.gov.uk/.

Neu gallwch chi lwytho'r ffurflen gwynion i lawr a'i hanfon drwy ffacs, y post neu e-bost. Gallwch wneud y gŵyn naill ai drwy ddefnyddio'r ffurflen a ddarparwyd neu drwy lythyr neu e-bost. Manylion cysylltu'r Swyddfa Cwynion Barnwrol yw: Office for Judicial Complaints Steel House 11 Tothill Street 3rd Floor, 3.01-3.03 Llundain, SW1H 9LJ, Ffôn: 01686 610205; Ffacs: inbox@ojc.gsi.gov.uk; ffacs: 020 3334 0031;
Minicom VII 020 334 0146 (Llinell gymorth i bobl fyddar a thrwm eu clyw).

Dylid anfon pob cwyn am ymddygiad dirprwy grwneriaid a dirprwy grwneriaid cynorthwyol at y Crwner mewn ysgrifen. Os ystyrir bod y ffordd mae'r Crwner wedi ymdrin â chwyno am ddirprwy neu am ddirprwy cynorthwyol yn ffurfio camymddygiad personol gan y Crwner yna mae'n bosibl y caiff yr honiad hwnnw ei drosglwyddo i'r Swyddfa Cwynion Barnwrol. Fodd bynnag, ni allai'r Swyddfa Cwynion Barnwrol ddelio â neu ddod i benderfyniad am y gŵyn ei hunan yn erbyn y dirprwy grwner neu'r dirprwy grwner cynorthwyol.

Cwynion am wasanaeth y crwner

Dylid gwneud pob cwyn am weinyddiaeth gwasanaeth y crwner neu am ymddygiad swyddogion y crwner gyda'r Crwner perthnasol yn gyntaf, a hynny ar ffurf ysgrifenedig. Dylid hefyd anfon copi o'r llythyr at yr awdurdod lleol sy'n ariannu'r gwasanaeth.

Gallwch hefyd wneud cwyn yn uniongyrchol wrth yr awdurdod lleol perthnasol. Os ydych yn anfodlon ar ymateb y cyngor, y cam nesaf yw cwyno wrth yr Ombwdsmon Llywodraeth leol yn www.lgo.org.uk/making-a-complaint neu drwy ffonio 0300 061 0614 neu 0845 602 1983. Gallwch hefyd wneud cwyno drwy ysgrifennu at: The Local Government Ombudsman, PO Box 4771, Coventry CV4 0EH.

Ni chodir ffi am wneud cwyn am safon gwasanaeth swyddfa crwner.

Cwynion am yr Awdurdod Meinweoedd Dynol (HTA)

Gallwch wneud cwyn am yr HTA, ei staff neu Aelodau wyneb yn wyneb, drwy lythyr, e-bost neu dros y ffôn. Dylech anfon gohebiaeth yn y post neu drwy e-bost at Complaints Officer, Human Tissue Authority, 151 Buckingham Palace Road, London, SW1W 9SZ; ebost enquiries@hta.gov.uk. Gallwch hefyd ffonio 020 7269 1900. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am bolisi cwynion yr HTA yn: www.hta.gov.uk/aboutus/complaintsprocedure.cfm

Rhagor o wybodaeth a chefnogaeth

Cruse Bereavement Care: I gael help a chefnogaeth gallwch ffonio llinell gymorth genedlaethol Cruse ar 0844 477 9400 neu drwy anfon e-bost at helpline@cruse.org.uk. Cyfeiriad eu gwefan yw: www.crusebereavementcare.org.uk/

Foundation for the Study of Infant Deaths (FSID), mae gan yr FSID linell gymorth Rhadffôn, 0808 802 6868 ac maen nhw'n darparu cefnogaeth gyda phrofedigaeth drwy'u rhwydwaith cyfeillion a fforwm drafod i rieni galarus yn: http://fsid.org.uk/page.aspx?pid=309

INQUEST, mae Inquest yn darparu gwasanaeth arbenigol cynhwysfawr i bobl alarus yng Nghymru a Lloegr ar farwolaethau cynhennus a'r gwaith ymchwilio iddynt. www.inquest.org.uk/

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cyhoeddi ***llyfryn*** A Guide to Coroners and Inquests sydd ar gael i'w lwytho i lawr ar wefan DirectGov: www.direct.gov.uk/en/Governmentcitizensandrights/Death/WhatToDoAfterADeath/DG_066713

Patient Concern: mae Patient Concern yn sefydliad sydd wedi ymrwymo i hyrwyddo dewis a grymuso i bob defnyddiwr y gwasanaeth iechyd. Maen nhw wedi cyhoeddi taflen *All you need to know about post mortems,* sydd ar gael drwy anfon e-bost atyn nhw drwy patientconcern@hotmail.com neu drwy ysgrifennu at Patient Concern, PO Box 23732, Llundain, SW5 9FY.

Stillbirth and Neonatal Death charity (Sands): mae Sands yn cefnogi unrhyw un y mae marwolaeth babi wedi effeithio arno neu arni ac yn hybu ymchwil i leihau colli bywydau babis. Maen nhw wedi cyhoeddi amrywiaeth eang o daflenni yn rhoi cefnogaeth a gwybodaeth ar: www.uk-sands.org/Publications/Support-and-information-leaflets.html
Rhif eu llinell gymorth yw 020 7436 5881.

Gogledd Iwerddon

Mae'r HTA yn rheoleiddio archwiliadau post-mortem yng Ngogledd Iwerddon er nad yw'r canllawiau hyn mewn grym yno. Bydd gwybodaeth wedi'i diweddaru ar gyfer Gogledd Iwerddon ar gael ar wefan y Department of Health, Social Services and Public Safety (DHSSPS) maes o law.

Yr Alban

Nid yw'r HTA yn rheoleiddio archwiliadau post-mortem yn yr Alban ac nid yw'r canllawiau hyn mewn grym yno. Mae gwefan Llywodraeth yr Alban yn darparu rhywfaint o wybodaeth gyffredinol yn www.scotland.gov.uk/Publications/2004/02/18927/33310. Gallwch hefyd ffonio'r Uned Ymholiadau Ganolog ar 08457 741 741, neu 0131 556 8400; neu drwy ffacs ar 01397 7950. Fel arall, gallwch anfon e-bost at ceu@scotland.gsi.gov.uk neu ysgrifennu at General Enquiries, St. Andrew's House, Regent Road, Edinburgh, EH1 3DG.

Cyhoeddwyd Rhagfyr 2011